



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Cynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy	
1	Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y sir drwy ddarparu'r cynllun tai fforddiadwy. <i>MF5-44 (7.3.2.24)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 247)</i>	2019/20 - 210 2020/21 - 196
2	Byddwn yn darparu unedau tai fforddiadwy ychwanegol fesul 10,000 o aelwydydd. <i>(PAM/036)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 15.4)</i>	10.5 Fesul 10,000 o aelwydydd
3	Byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo ychwanegol newydd sy'n cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol. <i>(7.3.2.25)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 61)</i>	59 eiddo ychwanegol
4	Byddwn yn datblygu cynllun tai fforddiadwy newydd uchelgeisiol a fydd yn darparu dros 900 o dai cyngor ychwanegol dros y 5-10 mlynedd nesaf. <i>MF5-45</i>	Mawrth 2020
5	Byddwn yn cyflwyno rhaglen Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion. <i>MF5-46 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2021
6	Byddwn yn ymgysylltu â thenantiaid a phartneriaid allweddol i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer eiddo sy'n berchen i'r Cyngor. <i>MF5-48</i>	Mawrth 2020
7	Byddwn yn helpu holl denantiaid y Cyngor drwy'r newidiadau Diwygio Lles ac yn cyflawni'r cynllun gweithredu Credyd Cynhwysol er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posibl a datblygu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth newydd. <i>MF5 49 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i>	Mawrth 2021
8	Byddwn yn rhoi camau gweithredu allweddol ar waith yn ein Strategaeth Ddigartrefedd newydd i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael y cymorth priodol i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Modelau newydd o lety fforddiadwy i bobl sengl. • Ailfodelu darpariaeth llety dros dro a llety â chymorth. • Ymchwilio i weld a ellir datblygu dull 'Tai yn Gyntaf' i gefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. <i>MF5-50 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i>	Mawrth 2020
9	Byddwn yn datblygu prif gynllun trawsnewidiol ar gyfer Ward Ty-isa a fydd yn mynd i'r afael â phryderon trigolion ac yn rhoi iddynt ddyfodol cynaliadwy. <i>MF5-51 & MF5-47</i>	Mawrth 2020
10	Byddwn yn ei gwneud yn hawdd ac yn ddeniadol i denantiaid y cyngor gyfrannu at lywio penderfyniadau strategol a gwella gwasanaethau, drwy gyfrannu mewn modd ystyrlon a datblygu sgiliau tenant perthnasol.	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
11	Byddwn yn cynyddu % yr eiddo preifat gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto. (PAM/013) <i>(Canlyniad 2018/19 - 7.4% - 189 o breswylfeydd)</i> Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy'n unig.	7.46% 195 o breswylfeydd
12	Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi newydd a grëir o ganlyniad i aildechrau defnyddio eiddo gwag (PAM/045) <i>(Gwaelodin 2018/19 - 7 o breswylfeydd ychwanegol)</i> Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy'n unig.	7 Preswylfeydd ychwanegol
13	Byddwn yn cynnal nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i gwblhau atgyweiriadau tai Cyngor. (PAM/037) <i>(Canlyniad 2018/19 - 14.6 o ddiwrnodau)</i>	14 diwrnod
14	Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl dai Cyngor yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (PAM/038) <i>(Canlyniad 2018/19 - 100%)</i>	100%
15	Byddwn yn lleihau % y rhent sy'n cael ei golli oherwydd bod eiddo'n wag. (PAM/039) <i>(Canlyniad 2018/19 - 2.9%)</i>	2.7%

Mesurau Llwyddiant

Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir (7.3.2.24)